# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2232 |
|---|---|
| Committee | Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Date | 16/04/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Stewart Healy (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Peter Baldwin (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Cross (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Gareth A. Davies (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Hedley McCarthy (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Greg Paulsen (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Stephen Thomas (Aelod Pwyllgor)<br>Michelle Morris (Swyddog)<br>Damien McCann (Swyddog)<br>Richard Crook (Swyddog)<br>Rhian Hayden (Swyddog)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Clive Rogers (Swyddog)<br>Bernadette Elias (Swyddog)<br>Andrew Parker (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Wayne Hodgins (Notify) |

| Item ID | 4631 |
|---|---|
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyn unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. |

| | |
|---|---|
| | |

| Item ID | 4632 |
|---|---|
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd G. Collier. |

| Item ID | 4633 |
|---|---|
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| Item ID | 4634 |
|---|---|
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2021.<br><br>Dywedodd Aelod na chafodd ymateb i gais a wnaeth yn y cyfarfod diwethaf. Roedd yr Aelod yn siomedig nad oedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol wedi ymateb i'w gais a theimlai fod hyn yn annerbyniol.<br><br>Ymddiheurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol i'r Aelod a dywedodd y byddai'n cysylltu ag ef yn uniongyrchol ar amser cyfleus i'r ddau ohonynt gan ei bod yn wybodaeth tu allan i'r adroddiad a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion. |

| Item ID | 4667 |
|---|---|
| Item Title | Dalen Weithredu – 5 Mawrth 2021 |
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2021, yn cynnwys:-<br><br>**<u>CCTV</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod pryd y medrid disgwyl yr adroddiad i adolygu cydraddoldeb o ran darpariaeth CCTV. Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y byddai angen casglu data dros gyfnod a chynnwys gwybodaeth a gafwyd o gyfarfodydd gydag Aelodau. Byddai'r canfyddiadau hyn wedyn yn cael eu cyflwyno fel rhan o'r adroddiad monitro blynyddol.<br><br>Teimlai'r Aelod mai gorau po gyntaf y gellid mynd i'r afael â'r materion hyn gan fod anghenion cymunedau yn newid yn barhaus.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod angen cyfnod monitro cyn |

| | |
|---|---|
| | y gellid cyflwyno adroddiad cynnydd/diweddaru.<br><br>Pwysleisiodd yr Aelod nad oedd unrhyw gamerâu yn Ward Nantyglo a theimlai felly ei bod yn bwysig i'r Ward y caiff diweddariadau eu derbyn yn fwy rheolaidd nag unwaith y flwyddyn.<br><br>Cytunodd Aelod arall gyda'r pryderon a godwyd a dywedodd fod Aelodau eisiau gweld cynnydd. Ychwanegodd yr Aelod fod gan awdurdodau eraill yng Ngwent gysylltiadau uniongyrchol gyda'r Cwmwl ac felly roedd gan yr Heddlu luniau fel maent yn digwydd. Dyma'r hyn mae preswylwyr ac Aelodau ei angen. Byddai'n dangos fod y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu i roi sicrwydd fod ein preswylwyr yn ddiogel.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol, yn dilyn cyswllt pellach gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, na fu newid yn eu sefyllfa ac nad oedd cyllid ar gael. Nododd yr Aelod fanteision bod wedi cysylltu â'r Cwmwl, fodd bynnag os nad oes unrhyw gamerâu mewn rhai lleoedd yna ni fyddai unrhyw fudd i'r ardaloedd hynny. Mae'r Aelod yn edrych ymlaen at adroddiadau yn y dyfodol i fonitro cynnydd ar y mater hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i nodi'r ddalen weithredu. |

| Item ID | 4668 |
|---|---|
| Item Title | Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol – Diweddariad Chwarterol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol fod yr adroddiad yn rhoi cynnydd fel yn Chwarter 4 ar y Strategaeth Cyfathrebu Corfforaethol. Siaradodd y Prif Swyddog Interim am yr adroddiad a dywedodd fod y pandemig wedi golygu fod cyflenwi'r strategaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar y cyfathrebu yn gysylltiedig â Covid-19. Daeth pwysigrwydd cyfryngau digidol a chymdeithasol hyd yn oed yn fwy sylweddol yn ystod y pandemig er mwyn sicrhau y caiff ein cymunedau eu hysbysu.<br><br>Nodwyd fod y Tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn aelod allweddol o Grŵp Rhybuddio a Hysbysu Fforwm Gwent Gadarn. Mae'r Grŵp yn gyfrifol am alinio cyfathrebu a chyfathrebu gwybodaeth allweddol i breswylwyr Gwent yn ystod y pandemig. Nododd y Prif Swyddog Interim Masnachol bwysigrwydd y Tîm gan sicrhau ymagwedd gyson rhwng partneriaid lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Oherwydd fod y pandemig yn newid yn barhaus, bu angen llif cyson o wybodaeth ac mae angen i hynny fod yn glir ac effeithlon yn ogystal â chael ei chydlynu rhwng pob sector.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Interim Masnachol amlinelliad pellach o nodau'r Cynllun Cyfathrebu yng nghyswllt ymateb Covid-19 fel y manylir yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef bod y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol wedi ystyried diweddariad Chwarter 4 (Ionawr i Mawrth 2021) ar y Strategaeth Gyfathrebu cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gweithredol. |

| Item ID | 4669 |
|---|---|
| Item Title | Monitro Perfformiad Chwarterol Strategaeth Fasnachol |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol.<br><br>Siaradodd y Prif Swyddog Interim Masnachol am yr adroddiad sy'n amlinellu Chwarter 4 y Strategaeth Fasnachol. Dywedodd y Prif Swyddog Interim y caiff gweithgareddau masnachol y Cyngor eu gyrru gan yr uchelgais a fanylir yn y Strategaeth. Mae'r pandemig yn parhau i gael effaith ar gyflenwi'r Strategaeth, fodd bynnag gwnaed cynnydd sylweddol yn Chwarter 4 a chyfeiriodd Aelodau at y gweithgaredd allweddol a gaiff ei grynhoi yn yr adroddiad yn unol â themâu ac uchelgeisiau allweddol y Cyngor.<br><br>Codwyd y cwestiynau dilynol ar y pwynt hwn ac ymateb iddynt yn unol â hynny:-<br><br>**Bwrdd Strategol Comisiynu a Masnachol –** cadarnhawyd fod y Bwrdd yn cynnwys y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a swyddogion Cyfreithiol, Adnoddau a Chaffael.<br><br>**Cronfa Democratiaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru –** dywedwyd fod y gronfa yng nghyswllt ymchwil defnyddwyr gyda phobl ifanc 16 i 25 oed i gael dealltwriaeth o sut mae pobl ifanc yn cael mynediad i'r gronfa ddemocratiaeth a chael adborth ar eu profiadau.<br><br>**Canolfan Gyswllt –** codwyd pryderon am y Ganolfan Gyswllt, yn arbennig bod y 'Gwasanaeth Allan o Oriau' yn cael ei gyrchu tu allan i Flaenau Gwent gan ei bod yn bwysig fod gweithredwyr yn adnabod yr ardal leol. Gofynnwyd hefyd i Aelodau Etholedig gael eu hysbysu os oes unrhyw newidiadau.<br><br>Cadarnhaodd Swyddog y byddid yn ceisio darpariaeth gwasanaeth lleol. Dywedodd y Swyddog ymhellach fod nifer o gamau gweithredu yn cael eu dilyn gyda SRS i drin y materion a godwyd.<br><br>**Cau'r Ganolfan Ddinesig –** codwyd pryderon am y gwasanaethau a gynigir yn y Ganolfan Ddinesig drwy'r Derbynnydd a gofynnodd os y byddai'r gwasanaethau hyn, tebyg i geisiadau Bathodyn Glas, ar gael yn yr Hybiau cymunedol.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol yr edrychir ar holl agweddau'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Ddinesig er mwyn deall anghenion cwsmeriaid. Byddai'r data yn cael ei gasglu a'i gyfathrebu i Aelodau i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu amdanynt. |

| | |
|---|---|
| | **Neges Ddwyieithog y Ganolfan Gyswllt –** dywedwyd fod preswylwyr wedi codi pryderon gydag Aelodau mai cyfarchiad Cymraeg oedd gyntaf gan y Ganolfan Gyswllt. Roedd yn neges hir ac mewn rhai achosion yn gostus i'r preswylwyr. Gofynnodd Aelod os y gallai'r Saesneg ddod yn gyntaf, sef yr hyn sy'n digwydd mewn rhai awdurdodau lleol eraill.<br><br>Atgoffodd y Prif Swyddog Interim Masnachol yr Aelodau fod gan y Cyngor ddyletswydd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg a dywedodd y gellid ymchwilio'r cais hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei gyfrifoldeb dan y Ddeddf.<br><br>**Amserau Galw i'r Ganolfan Gyswllt –** mewn ymateb i bryderon a godwyd yng nghyswllt cost amserau aros oedd weithiau yn faith i'r Ganolfan Gyswllt, dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y caiff amserau aros eu monitro fel rhan o'r trefniadau perfformiad gwasanaeth ac y byddid yn datblygu gwelliannau megis system ciwio.<br><br>**Rhifau Symudol Swyddogion –** oherwydd trefniadau gweithio ystwyth, dywedwyd nad oedd rhai swyddogion brin yn y swyddfa a'u bod wedi cael ffonau symudol. Gofynnodd Aelod os y gellid rhoi'r rhifau ffôn symudol i Aelodau gan ei bod yn bwysig eu bod yn parhau'n hygyrch i Aelodau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Interim Masnachol y dylai rhifau swyddfa gael eu hailgyfeirio at ffonau symudol swyddogion.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1; sef bod diweddariad cynnydd Chwarter 4 ar y Strategaeth Fasnachol ei ystyried cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Gweithredol. |

| Item ID | 4670 |
|---|---|
| Item Title | Gwasanaeth Profi Olrhain a Diogelu |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Interim Masnachol a Rheolwr Gwasanaeth Profiad Gwasanaeth a Thrawsnewid.<br><br>Rhoddodd y Prif Swyddog Interim Masnachol drosolwg o'r adroddiad a gwahoddodd y Rheolwr Gwasanaeth Profiad Cwsmeriaid a Thrawsnewid i roi diweddariad ar y sefyllfa bresennol a pherfformiad y gwasanaeth fel y manylir yn yr adroddiad. Nodwyd fod perfformiad gwasanaeth TTP Gwent fel rhanbarth yn y chwartel uchaf.<br><br>Dywedodd Aelod iddo ofyn am yr adroddiad hwn gan ei fod wedi monitro'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Gyngor Sir Fynwy sy'n rhoi'r manylion hyn ar sail ward wrth ward. Mae'r Aelod yn gwerthfawrogi gwaith ardderchog y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r Awdurdod Lleol, fodd bynnag fel Aelod Etholedig teimlai fod angen y lefel yma o fanylion ar gyfer Blaenau Gwent. Gobeithid y byddai rhifau Covid-19 yn awr yn parhau i ostwng a diolchodd i'r Swyddogion am adroddiad defnyddiol. |

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn y diweddariad cynnydd. |

| Item ID | 4689 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Arfaethedig ar Weithio Ystwyth |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Datblygu Sefydliadol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yr adroddiad sy'n rhoi cyfle i Aelodau graffu, herio a gwneud awgrymiadau ar y polisi arfaethedig ar Weithio Ystwyth ar gyfer gweithlu'r Cyngor yn dilyn yr adroddiad a gymeradwywyd yn y Cyngor ar 25 Mawrth 2021 ar fodel gweithredu a threfniadau gwaith newydd y Cyngor.<br><br>Dywedodd y Swyddog y byddai cyflwyno model newydd o weithio ystwyth yn dod ag arferion gwaith modern, gwella profiad gwaith aelodau staff, gwella perfformiad a chynhyrchiant a gwireddu buddion ariannol. Mae'r Polisi Gweithio Ystwyth yn allweddol i fodel gweithio'r dyfodol ac yn gysylltiedig gyda gweledigaeth y Cyngor ar gyfer datblygu cynaliadwy yn cynnwys twf economaidd cynaliadwy a datgarboneiddio.<br><br>Siaradodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol ymhellach am yr adroddiad a nododd y cyfrifoldebau a fanylir yn y polisi. Nododd y Swyddog bod undebau llafur Unsain, GMB ac Unite i gyd wedi ymwneud yn llawn â datblygu hyn a'r drafft bolisi Gweithio Hyblyg.<br><br>Anfonwyd y drafft bolisi at undebau llafur ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol a derbyniwyd dau gais gan Undeb i gael eu hystyried, fel sy'n dilyn:-<br><br>• hoffai Unsain weld lwfans o £16 ac nid £12 ar gyfer gweithwyr Ystwyth. Roedd y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol wedi trafod y cynnig hwn ac yn cefnogi ffigur o £15.60 i'w argymell i Aelodau ei ystyried (ffigur pro rata a fyddai'n deg i bob gweithiwr); a<br>• phob gweithiwr cyflogedig presennol a gawsant eu dynodi fel gweithwyr cartref neu ystwyth i fedru defnyddio lwfans hyd at £200 i dalu am gost cadair a desg a fyddai'n ffitio yn amgylchedd eu cartref. Dylid defnyddio'r lwfans hwn gyda chyflenwr cymeradwy y cyngor. Mae'r Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol yn cefnogi'r dewis ar gyfer y gweithlu gan gyflenwyr cymeradwy yn cynnwys offer wedi'i ailgylchu. Gofynnodd Unsain hefyd fod unrhyw weithlu yn y dyfodol (recriwtiaid newydd) yn cael opsiwn y lwfans os ydynt ar gyflog gradd C neu is.<br><br>Cyfeiriodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol yr Aelodau at yr opsiynau a nodi'r opsiwn a ffafrir.<br><br>Gwahoddodd y Swyddog gwestiynau/sylwadau gan yr Aelodau ar y pwynt hwn. |

| | |
|---|---|
| | Gofynnodd yr Aelod os oedd unrhyw aelod o staff wedi gadael y Cyngor gan nodi gweithio ystwyth fel rheswm ar ôl cymeradwyo'r trefniadau gwaith newydd oedd wedi ffurfio'r polisi hwn.<br><br>Dywedodd Aelod iddo wneud ei bwynt yn glir yng nghyfarfod y Cyngor a'i ailadrodd ei fod yn hollol yn erbyn y ffordd newydd o weithio ar hyn o bryd. Mae gan yr Aelod lawer o bryderon sy'n cynnwys iechyd meddwl gweithwyr. Bu'r flwyddyn ddiwethaf yn ystod y pandemig yn arswydus gyda phobl wedi eu cyfyngu i'w cartrefi. Dymunai'r Aelod gael sicrwydd gan y Cyngor y gellid darparu ar gyfer hynny os nad oedd gweithiwr eisiau gweithio gartref am reswm penodol.<br><br>Fel rhan o'r polisi, dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod nifer o ddogfennau i gael eu llenwi gyda gweithwyr a'u rheolwyr fel rhan o gyfarfodydd ymgynghori un-i-un a gaiff eu cynnal. Rhoddir ystyriaeth i amgylchiadau'r unigolyn, eu hiechyd a'u llesiant ac iechyd meddwl, a byddai unrhyw addasiadau gofynnol yn cael eu rhoi ar waith. Byddai'r cyfarfodydd un i un yn dynodi anghenion yr unigolyn ac yn cytuno ar gwrs gweithredu neu addasiad priodol. Ni chaiff gweithio gartref ei orfodi ar unrhyw aelod o'r gweithlu.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol na wyddai fod unrhyw aelod o staff wedi gadael yr Awdurdod oherwydd cynlluniau ar gyfer model gweithredu newydd y Cyngor.<br><br>Roedd yr Aelod wedi gobeithio y byddid yn dangos cydymdeimlad wrth drin yr holl weithwyr.<br><br>Nododd yr Aelod hefyd y £15.60 a gynigiwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol a chynnig y dylid talgrynnu'r ffigur i £16.00 yn unol â chynnig yr Undebau Llafur.<br><br>Ar wahoddiad y Cadeirydd, rhoddodd cynrychiolydd yr undebau llafur anerchiad i'r Pwyllgor. Mae'r cynrychiolydd yn croesawu'r cyfle i fynychu'r cyfarfod i sicrhau y caiff unrhyw gwybodaeth ei hegluro ar gyfer yr Aelodau. Dywedodd y cynrychiolydd Undebau Llafur fod staff ac Aelodau Etholedig wedi camu lan yn y ffordd y gwelodd y pandemig y Cyngor yn gweithio o gartref ac addasu i dechnoleg newydd yn y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Dywedodd y cynrychiolydd Undebau Llafur fod undebau wedi codi'r opsiwn ar gyfer gweithio gartref yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phartneriaeth Gweithlu Cymru. Roedd y gwaith a wnaed gyda'r Cyngor yn ardderchog ac mae'r Cyngor yn awr ar gam pwysig yn y broses. Ychwanegwyd, fel rhan o'r gwaith gan yr Undebau llafur, y cynhaliwyd arolwg o 1000 o bobl o bob rhan o Gymru ac y caiff hyn ei rannu gyda staff yn y dyfodol agos. Cafodd syniadau a negodi'r undebau Llafur eu cynnwys yn y polisi a dywedodd y cafodd y costau o £16.00 ei dalgrynnu o'r £15.60 a gyflwynwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag cadarnhaodd cynrychiolydd yr Undebau Llafur fod y £15.60 yn unol â HMRC ac yn seiliedig ar y 3 diwrnod pro rata, felly mae'r £15.60 yn |

dderbyniol.

Nododd cynrychiolydd yr Undebau Llafur y sylwadau gan yr Aelodau a dywedodd na fyddai neb yn cael eu gorfodi i weithio o gartref. Gallai fod nifer o resymau am hyn yng nghyswllt materion iechyd meddwl, iechyd a diogelwch y gweithiwr neu broblem yng nghyswllt cyfrinachedd o fewn yr amgylchedd cartref. Felly, cadarnhawyd na fyddai neb yn cael eu gorfodi i weithio gartref ac mae'r cyngor wedi rhoi'r sicrwydd hwn.

Yng nghyswllt celfi 'swyddfa', gwerthfawrogai cynrychiolydd yr Undebau Llafur y byddai'n fanteisiol defnyddio'r celfi swyddfa presennol, fodd bynnag mae angen cofio y byddai'r celfi hyn yng nghartrefi gweithwyr. Mae achosion lle efallai na fyddai celfi neilltuol yn cyd-fynd ag addurniad cartrefi gweithwyr neu'n addas ar gyfer eu gofod cartref. Felly yn yr achosion hyn caniateir i weithwyr brynu eu celfi eu hunain. Teimlai'r Undebau Llafur ei bod yn bwysig rhoi lwfans i staff ar Raddfa 6 ac aelodau newydd o staff sydd ar gyflog is i sicrhau y caiff ein gweithwyr cyflog isaf eu cefnogi.

Awgrymodd cynrychiolydd yr Undebau Llafur hefyd y dylid ystyried polisi milltiroedd a cyflwynwyd y gellid hawlio milltiroedd o ffiniau Blaenau Gwent ac nid eu cartrefi, a fyddai'n arbediad ariannol i'r Cyngor.

Hysbysodd cynrychiolydd yr Undebau Llafur mai Blaenau Gwent yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gwblhau polisi Gweithio Ystwyth ac iddo fod yn llwyddiannus mae'n hanfodol fod ein staff yn cael eu cefnogi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'n rhaid i staff wynebu llawer o galedi a bu angen iddynt wneud penderfyniadau p'un ai i fwydo eu plant neu roi'r gwres ymlaen. Yn anffodus dyma oedd aberth cost byw ar gyfer ein staff ar y cyflog isaf. Roedd hwn yn rheswm arall dros gyfarfodydd un-i-un gyda gweithwyr gan y byddai unrhyw bryderon yn cael eu trafod ac ategodd cynrychiolydd yr Undebau Llafur y byddai gweithwyr yn cael dewis. Roedd gweithwyr oedd eisiau gweithio gartref yn ogystal â gweithwyr nad ydynt eisiau gweithio gartref a gellid cefnogi'r ddau opsiwn yma.

Dywedodd y cynrychiolydd Undebau Llafur fod yr undeb yn cefnogi i'r adroddiad symud ymlaen i'r Cyngor. Bu'r staff yn gweithio am dros flwyddyn gyda'r ansicrwydd hwn ac mae'n bwysig y caiff sicrwydd ei roi i staff yn awr.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau/sylwadau gan Aelodau ar y pwynt hwn.

Mewn ymateb i bryderon a leisiwyd am arian i'w dalu yn staff yn ogystal ag arian y gellid ei hawlio drwy'r HMRC, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y goblygiad cyllideb oherwydd taliad a gynigiodd y Cyngor o £26.00 y mis neu £15.60 y mis, yn dibynnu os yw staff yn gweithio gartref yn barhaol neu'n gweithio'n ystwyth. Pe byddai gweithwyr yn derbyn y lwfansau hyn gan y Cyngor, yna ni fedrid hawlio cymorth treth gan HMRC.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Adnoddau mai'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am y costau a gaiff eu talu i'r staff.

Gofynnwyd ymhellach os oes angen i staff greu gofod swyddfa yn eu cartrefi, a fyddai'r Awdurdod mewn sefyllfa i roi benthyciad i wneud yr addasiadau i hyn i sicrhau'r gofod ychwanegol os oes ei angen a/neu gyfrinachedd.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau yr ystyriwyd cymorth fodd bynnag mewn sefyllfa nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i gynnig benthyciadau sylweddol i staff ar gyfer newidiadau i'w cartrefi nac i brynu tai haf.

Ychwanegodd y cynrychiolydd Undebau Llafur fod gwaith ar draws awdurdodau eraill yng Nghymru yn cael ei ddal lan ar hyn o bryd gan nad oedd pob awdurdod lleol eisiau darparu lwfans gweithio ystwyth. Teimlid fod staff yn arbed ar gostau teithio, sy'n fwy na thaliadau o'r fath. Teimlid fod Cyngor Blaenau Gwent yn addasu fel cyflogwr o ddewis a drwy'r pandemig mae'r Awdurdod wedi sylweddoli fod manteision i weithio gartref i'n staff. Teimlai cynrychiolydd Unsain y byddai'r trefniadau gweithio newydd yn fanteisiol i'r staff.

Codwyd pryderon pellach am weithio gartref a dywedwyd unwaith eto na fyddai staff yn cael eu gorfodi i weithio gartref.

Yn nhermau darparu ar gyfer staff, cadarnhawyd fod y Cyngor yn hyderus y gellid darparu yn yr adeiladau presennol ar gyfer staff nad ydynt yn dymuno gweithio gartref.

Cyfeiriodd Aelod at Gyngor Sir Fynwy sydd wedi cynnig trefniadau gweithio hybrid. Cadarnhaodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol fod gweithiwr hybrid yr un peth â gweithiwr ystwyth, gan weithio rhwng eu cartrefi ac adeiladau swyddfa.

Croesawodd Aelod arall yr adroddiad a'r gwaith ar y cyd rhwng y Cyngor a'r undebau llafur i gyflawni'r negodiadau hyn er budd staff. Teimlai'r Aelod fod y trefniadau gweithio ystwyth yn newyddion da i'r Awdurdod ac roedd yn fodlon y cafodd llesiant staff y Cyngor ei ystyried. Mae hefyd yn newyddion rhagorol mai'r Cyngor hwn yw'r cyntaf i sicrhau ffordd mor fodern o weithio.

Teimlai Aelod fod meysydd ar goll o'r polisi yng nghyswllt hyfforddiant a datblygu staff newydd, ac efallai gyfnod yn y swyddfa cyn dechrau gweithio gartref.

Cododd yr Aelod bryderon hefyd am recriwtio staff newydd, gan y gallai gweithiwr ystwyth fod yn byw unrhyw le a gweithio gartref. Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf ym Mlaenau Gwent ac felly mae'n bwysig fod swyddi lleol yn cael eu cadw'n lleol. Dylid hefyd ystyried gofyniad milltiredd ar gyfer swyddogion ar radd neilltuol ar gyfer ymgeiswyr y dyfodol. Cynigiwyd y dylid rhoi cymal cymdeithasol mewn contractau y byddir yn recriwtio o fewn tua 30 milltir i'r Fwrdeistref.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddai cynllun ymgysylltu

sy'n cynnwys rhaglen hyfforddiant a datblygu a fyddai'n rhedeg wrth ochr y polisi hwn ar gyfer arweinwyr a'r gweithlu. Byddai angen adolygu'r rhaglen gynefino ar draws y Cyngor yn unol â'r cyfleoedd digidol sy'n awr ar gael ac nid dim ond mewn cysylltiad â'r polisi.

Yn nhermau recriwtio, dywedwyd fod rhan fwyaf staff y Cyngor yn staff rheng flaen a seiliedig mewn ysgolion. Dim ond cyfran fach o'r gweithlu fyddai'n weithwyr ystwyth a gweithio gartref yn barhaol.

Dywedodd y Pennaeth Datblygu Sefydliadol y byddid yn adolygu'r polisi milltiredd unwaith y cafodd y Polisi Gweithio Ystwyth ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.

Ychwanegodd y cynrychiolydd Undebau Llafur fod y Cyngor yn gwybod am bwysigrwydd cadw swyddi yn lleol a nododd yn ystod y recriwtio diweddar fod unigolion o Birmingham wedi gwneud cais am y swyddi TTP. Roedd cynrychiolydd yr Undebau Llafur yn falch i gadarnhau fod Blaenau Gwent yn hybu 'swyddi lleol i bobl leol' a bod mwyafrif y gweithwyr cyflogedig o'r ardaloedd lleol.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yng nghyswllt ymgyfraniad undebau llafur, cadarnhawyd yr ymgynghorwyd â'r holl undebau ac y gwahoddwyd cynrychiolydd Unsain i siarad ar ran y Cyd Undebau Llafur.

Holodd Aelod os ymgynghorwyd â staff os nad oeddent mewn undeb. Cadarnhawyd y cyfathrebwyd â staff drwy neges gan y Rheolwr Gyfarwyddwr, diweddariadau gan reolwyr ac yr ymgynghorid yn unigol â nhw yn yr ymgysylltu un-i-un gyda rheolwyr a staff.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Undebau Llafur am eu cyfraniad a'u cydweithrediad yn ogystal â swyddogion am gynhyrchu adroddiad rhagorol. Diolchodd hefyd i Mr. D. Rees am ei gyflwyniad a'i ymateb i gwestiynau a godwyd gan Aelodau.

Dywedodd Aelod fod y Pwyllgor yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor, fodd bynnag ni fyddai hyn yn atal cwestiynu pellach yn y Cyngor. Cytunodd yr Aelod gyda'r Swyddog fod y polisi yn ddogfen fyw a dywedodd y gallai safbwyntiau newid. Roedd yr Aelod yn cefnogi Opsiwn 2 yn yr achos hwn, er y gallai pethau newid yn dilyn ystyriaeth yn y Cyngor.

Eiliodd Aelod Opsiwn 2, er gan roi ystyriaeth i ddyfodol pobl ifanc o fewn y Fwrdeistref hon, gofynnodd yr Aelod i Datblygu Sefydliadol roi ystyriaeth i gymal cymdeithasol gweithwyr lleol fel rhan o'r broses recriwtio.

PENDERFYNWYD yn unol â hynny.

Hysbyswyd ymhellach y cytunwyd â'r lwfans o £15.60 yn dilyn yr esboniad gan gynrychiolydd Unsain.

Cynigiwyd fod y Cyngor a'r undebau yn cydnabod pobl leol ar gyfer

| | |
|---|---|
| | cyflogaeth o fewn Cyngor Blaenau Gwent wrth i swyddi ddod yn wag i sicrhau y cedwir swyddi o fewn ardal y Fwrdeistref.<br><br>CYTUNWYD ar y llwybr gweithredu hwn.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell, yn amodol ar yr uchod, i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 2; sef y cafodd sylwadau ffurfiol yr undeb llafur eu hystyried ac yr awgrymwyd diwygiadau i'r polisi cyn ei gyflwyno i'r Cyngor. |